

# Darganfod yr Hôb a Chaergwrle



# Croeso i'r Hôb a Chaergwrle



Mae hanes hir a chyfoethog gan gymunedau Dyffryn yr Alun, oherwydd eu lleoliad ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a'r cymysgedd o greigiau sydd o danodd.

Bu llawer gwrthdaro yn yr ardal. Yn ystod yr Oesoedd Tywyll a'r Oesoedd Canol bu'r Cymry'n brwydro yn erbyn cyfres o oresgynwyr gan gynnwys Sacsoniaid, Normaniaid a Saeson. Yn ystod y Rhyfel Cartref roedd yn ganolbwynt brwydro rhwng y Brenhinwyr a'r Seneddwyr.

Roedd dau fryn tywodfaen Caergwrle yn fannau gwylio gwych am eu bod yn edrych dros ffyrdd y dyffryn a Gwastatir Sir Caer. Manteisiodd y Celtiaid, a gododd Caer Estyn, ar eu safle; fel y gwnaeth y Tywysog Dafydd a adeiladodd Gastell Caergwrle.

Roedd yr Afon Alun, oedd yn llifo'n gyflym, yn creu ynni i'r melinau a'r ffatrïoedd ar hyd y dyffryn. Defnyddid dŵr croyw ffynnon Caergwrle i fragu cwrw blasus gan arwain at ddatblygu Sba Caergwrle oedd yn denu twristiaid i'r ardal.






Datblygodd gweithfeydd glo, brics a haearn o gwmpas gwythiennau glo cyfoethog Dyffryn Nant Y Ffrith yn Llai, Cefn-y-bedd a Ffrwd. Cafodd y calchfaen a dynnwyd o chwareli mynydd yr Hôb ei ddefnyddio i adeiladu neu i'w losgi i wneud calch. Roedd chwareli tywod a gro yn Lôn Ffagl Yr Hôb, a Ffrwd.



**Ymchwil :** Y diweddar Alison Matthews, Rhona Phoenix, Dave Healey
**Script:** Lorna Jenner
**Golygu:** Sarah Brennen
**Dylunio:** William Smuts
**Ffotograffiaeth y bywyd gwyllt:** Steve Young, Simon Booth, Mick Brummage, Barry Barnacal, Carl Rogers
**Ffotograffau:** casgliad Rhona Phoenix ac Alison Matthews, Hugh Edwards, Russell Fidler, Lorna Jenner, William Smuts
**Argraffu:** Design and Print 01352 704000



Daeth Dyffryn yr Alun ei hunan yn ffordd bwysig o gludo nwyddau, gan chwarae rhan allweddol yn natblygiad y diwydiannau cyfagos. Roedd yna ffyrdd ceffylau pwn, llwybrau porthmyn ac, yn ddiweddarach, y ffyrdd tyrpeg yn rhedeg drwy'r dyffryn. Ond cychwyn y rheilffordd yn y dyffryn yn 1866 a gafodd yr effaith fwyaf.



Pan ddaeth y rheilffyrdd, daeth twristiaid yr 20fed ganrif i'r ardal; ymwelwyr Edwardaidd i gymryd o'r dyfroedd iachusol, a cherddwyr a beicwyr o lannau Mersi i weld y golygfeydd gwych.

Bu ffermio'n rhan bwysig o fywyd y pentref a, cyn 1750,roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn gweithio ar ffermydd neu'n ymwneud â chrefftau gwledig. Tyfwyd cnydau ar y pridd clog-glai ffrwythlon yn y dyffryn, a rhoddwyd anifeiliaid i bori ar y llethrau uwchben yn yr haf. Hyd heddiw, mae'r rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ddefnyddio i ffermio.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth gyfoethog naturiol a diwylliannol yr ardal. Llawer o ddiolch i'r bobl a ddarparodd y ffotograffau neu a rannodd eu hatgofion a'i gwybodaeth.


Gellir llwytho'r llyfryn hwn i lawr o www.cadwynclwyd.co.uk neu www.flintshire.gov.uk/tourism

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
Castell Alun
Sir y Fflint mewn Partneriaeth
Flintshire in Partnership
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government


# Drwy'r oesoedd



***2000CC***
*Tylwythau'r Oes Efydd yn ffermio'n lleol. Ar lan yr Afon Alun, daethpwyd o hyd i fowlen carreg glai Oes yr Efydd ac arni addurniad eurddalen.*




***250,000 - 8000CC***
*Tylwythau cyn hanes yn crwydro yma. Darganfuwyd arfau fflint yma.*



***750BC - 47OC***
*Pobl Oes yr Haearn yn codi Caer Estyn.*

***48 - 400***
*Milwyr Rhufeinig a leolwyd yn ninas Caer yn mynd heibio ar eu ffordd i'r gweithfeydd plwm yn y Ffrith.*



***Yr Oes Gristnogol Gynnar***
*Cysegru Eglwys yr Hôb i Gynfarch, sant y bumed ganrif. Dyma un o eglwysi cynharaf Sir y Fflint.*

***Tua 780***
*Codi Clawdd Wat. Gellir gweld olion yr hen glawdd yn rhedeg drwy'r Hôb a Chaergwrle hyd heddiw.*





***1277***
*Dafydd ap Gruffydd yn dechrau codi Castell Caergwrle.*


***1403***
*Byddinoedd Owain Glyndŵr yn llosgi treflan Seisnig yr Hôb yn 1403.*





***circa 1675***
*Adeiladu pont ceffylau pwn Caergwrle. Am ganrifoedd bu rhesi hir o geffylau pwn yn cludo nwyddau drwy Gaergwrle.*

***1860***
*Sefydlu bragdy Caergwrle*



***1866***
*Agor rheilffordd Wrecsam, yr Wyddgrug a Cei Connah.*





***1905***
*Adeiladu tŷ pwmpio ar gyfer sba Caergwrle.*



***2010***
*Ymwelwyr heddiw yn cerdded ar Lwybr Clawdd Wat ac yn edrych ar adfeilion y castell.*



# Gwlad y gororau

Lle terfysglyd oedd ardal yr Hôb a Chaergwrle yn y gorffennol am ei bod ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar hyd yr oesoedd, daeth tonnau o oresgynwyr o Loegr i geisio meddiannu tiroedd Cymru. Newidiodd perchenogaeth y treflannau'n aml. Caiff y newidiadau hyn eu hadlewyrchu yn enwau'r lleoedd. O'r Hen Saesneg daw'r enw 'Yr Hôb', ei ystyr yw 'tir caeedig mewn gwerndir'.Efallai mai ystyr wreiddiol Caergwrle oedd 'dol y crëyr wrth y gaer'- cyfuniad o'r ddwy iaith; y Gymraeg 'caer' a'r Hen Saesneg 'corley' (crëyr) a 'leah' (dol afon). Enwau Cymraeg sydd i'r rhan fwyaf o'r ffermydd a'r tai o gwmpas, gan adlewyrchu iaith y rhan fwyaf o'r bobl leol, ar waethaf y dirfeddiannaeth.


Mae Bryn Castell Caergwrle a Chaer Estyn yn safleoedd amddiffynnol gwych gyda golygfeydd eang i'r dwyrain dros wastadedd Sir Caer, i'r gogledd a'r de ar hyd Dyffryn yr Alun, ac i'r gorllewin ar hyd Dyffryn Nant-y-Ffrith.

Y Celtiaid oedd y bobl gyntaf i adeiladu ar dir uchel, gan godi Caer Estyn rywbryd rhwng 750CC a 470C. Mur pridd ag wyneb o gerrig iddo o gwmpas copa'r bryn yw'r fryngaer. Cafodd olion y mur a'r wyneb cerrig ei ddyddio rhwng 250 a 400OC, sy'n awgrymu bod y Celtiaid neu'r Rhufeiniaid hwythau wedi bod yn defnyddio pen y bryn.



Peth arall sy'n ein hatgoffa o hanes yr ardal hon sydd ar y ffin yw Clawdd Wat. Efallai i'r clawdd uchel hwn gyda'r ffos ar yr ochr orllewinol gael ei gloddio yn yr 8fed ganrif er mwyn i reolwyr Sacsonaidd y Mers allu amddiffyn eu ffin rhyngddyn nhw a Chymru. Roedd y clawdd 65km yn rhedeg o'r tir corsiog sydd i'r de o Groesoswallt, i Wrecsam, ar hyd ochr ddwyreiniol Dyffryn yr Alun i Abaty Dinas Basing yn Nhreffynnon. Nid peth hawdd oedd adeiladu'r clawdd am ei fod, ar gyfartaledd, ychydig dros 8m o led yn y gwaelod. Yn gyffredinol, cafodd ei wneud o bridd gyda haenau o dywyrch i'w gryfhau. Yn ôl un amcangyfrif, byddai cant o ddynion wedi cymryd tua blwyddyn i adeiladu'r clawdd 65km. Olion y clawdd yw'r bonc lle mae'r llwybr troed yn rhedeg o Rhyddyn House i Gresford Farm heddiw.

*Lluniwyd Llwybr Treftadaeth Clawdd Wat, taith gerdded 61 milltir (99km), drwy'r gororau rhwng Cymru a Lloegr, o Lanymynech yn Sir Amwythig i Dreffynnon. Mae'r llwybr yn mynd drwy'r Hôb a Chaergwrle. (www.watsdykeway.org)*



*Roedd y Celtiaid yn byw mewn tai crwn syml.*








# Yr aflonyddwch yn parhau



Roedd tiroedd y gororau'n dal i fod yn ardal o derfysg ymhell ar ôl i deyrnas y Mers ddod i ben ac wedi i Glawdd Wat golli'i bwysigrwydd. Mae adfeilion dramatig Castell Caergwrle ar ben y bryn yn dyst i'r ymryson parhaus.

Ar ddiwedd y 13edd ganrif, gwrthododd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, dalu gwrogaeth i Edward I, rheolwr newydd Lloegr. I ddial iddo am hyn, fe ymosododd Edward ar Gymru yn 1276 gan orfodi i Lywelyn encilio i Eryri. Ymunodd Dafydd, brawd iau Llywelyn, ag Edward am ei fod yn credu bod Llywelyn wedi ei dwyllo a dwyn ei etifeddiaeth. I wobrwyo Dafydd, fe roddodd Edward iddo'r tiroedd cyfoethog o gwmpas Caergwrle a'r Hôb, ac yn 1277 dechreuodd Dafydd adeiladu castell yng Nghaergwrle.

Ond, pan gafodd Arglwyddi Lloegr fwy o rym, teimlai Dafydd ei fod wedi cael ei drin yn annheg ac ymhen pum mlynedd fe newidiodd ei ochr ac ymladd yn erbyn y goresgynwyr o Loegr. Ymosododd Dafydd ar Gastell Penarlâg cyfagos gan sbarduno gwrthryfel milain drwy Ogledd Cymru. Yn y pen draw, roedd byddin anferth Edward yn rhy gryf i'r gwrthryfelwyr ac fe enillodd Edward reolaeth dros Gymru gyfan. Lladdwyd Llywelyn mewn brwydr, a chafodd Dafydd ei ddal. I'w gosbi am ei wrthgiliad, fe gafodd ei farnu'n euog o uchel frad. Ef oedd yr unigolyn cyntaf yn Lloegr i gael ei grogi, ei dynnu a'i chwarteru am y drosedd honno. Nid oedd tynged Castell Caergwrle fawr gwell. Dechreuodd Edward ei ailadeiladu ond ymhen y flwyddyn, fe aeth rhannau pren y castell ar dân a daeth y gwaith i ben.



*Am fwy o wybodaeth am y castell gwelwch y panel sydd ar dir y castell.*

## Owain Glyndŵr

Yn y 14edd ganrif roedd hawliau'r Cymry'n cael eu cyfyngu'n llym. Yn yr Hôb, roedd gwaharddiad ar i bobl yrru'u hanifeiliaid drwy'r fwrdeistref, ac ym marchnad y fwrdeistref yn unig roedd yr hawl ganddynt i werthu'u cynnyrch. Gwrthodwyd bob swyddogaeth uchel iddynt ac nid oedd yr hawl ganddynt i feddiannu unrhyw dir oedd ym meddiant Saeson

Enynnwyd teimladau poeth. Yn 1400, pan wrthryfelodd Owain Glyndŵr a datgan ei hunan yn Dywysog Cymru, fe dyfodd y gefnogaeth iddo'n gyflym. Erbyn 1403 roedd Glyndŵr wedi ymdreiddio i Sir y Fflint gan annog gwrthryfel. Daeth y Cymry lleol i ymuno â'i fyddinoedd a llosgi treflan Saesnig yr Hôb.

O dipyn i beth, fe adenillodd byddinoedd y Brenin Harri IV reolaeth. Erbyn 1410, roedd Cymry Sir y Fflint wedi ymostwng i'r Saeson. Cawsant ddirwy drom am eu rhan yn y gwrthryfel. Cafodd chwalu'r fwrdeistref a'r rhwygiadau a fu dros y blynyddoedd ddylanwad mawr ar yr ardal ac ni ddechreuodd ffynnu tan y 19eg ganrif.





# Dan dy draed

Y creigiau sydd o dan eich traed a ffurfiodd y dirwedd a'r defnydd o dir yn ardal yr Hôb a Chaergwrle. Dros nifer o filiynau o flynyddoedd, fe dyfodd haenau o greigiau gwahanol. Gosodwyd y calchfaen i lawr, o gyrff calchaidd y bywyd morol, pan roedd y rhan hon o Gymru yn gorwedd yn ymyl y cyhydedd o dan foroedd cynnes trofannol. Yna, wrth i lefel y môr ostwng, fe ddatblygodd deltâu anferth gan adael tywod a gro a chreu tywodfaen Cefn-y-Fedw, sy'n grut melinfaen caled. Yn ddiweddarach, tyfodd corsydd a fforestydd anferth ar y deltâu gan ffurfio dyddodion o lo gwerthfawr ymhen hir a hwyr.


Dros gyfnod o amser fe blygodd yr haenau o graig, gan ddryllio a ffawtio wrth i symudiadau'r ddaear eu codi, ac felly y ffurfiwyd Dyffrynnoedd yr Alun, Nant-y-Ffrith a'r bryniau o gwmpas.

Bu Oesoedd Iâ'r ddwy filiwn o flynyddoedd diwethaf yn ffurfio'r dirwedd hefyd wrth i lif y rhewlifoedd trwchus ddinoethi'r haenau o greigiau gan ddatgelu haenau cudd, ffurfio bryniau crynion a chafnu'r dyffrynnoedd. Llifodd llen iâ, hyd at 1km o drwch, o ardal Eryri i lawr i Ddyffryn Nant-y-Ffrith, yna throi i'r gogledd gan dorri bylchau rhwng Mynydd yr Hôb, bryn Castell Caergwrle a Bryn-y-Gaer, cyn ymuno â phen deheuol rhewlif Môr Iwerddon oedd ymhellach ar hyd Dyffryn yr Alun. Ychydig i'r gogledd o Gaergwrle, fe dyrchodd y rhew dwll dwfn yn y graig o danodd, llenwodd hwnnw â malurion y rhewlif gan greu dyddodion dwfn o dywod ac o ro yn Lôn Ffagl.




Wrth i'r hinsawdd ddechrau cynhesu, dros 14,000 o flynyddoedd yn ôl, lledodd y dyffryn ar ôl i ddŵr y rhewlif chwyddo a chynyddu llif yr afon. Gadawodd y rhewlifoedd haen gyfoethog o glog-glai ar lawr y dyffryn gan greu'r tir amaeth cyfoethog sydd o gwmpas yr Hob - tir y bu Arglwyddi'r Mers yn ei chwennych gymaint.

Bu symudiadau'r ddaear, a'r rhewlifoedd a ddaeth wedyn, wrthi'n dinoethi'r gwythiennau o faen haearn, glo a chlai tân a gafodd eu mwyngloddio'n ddiweddarach; a hefyd y calchfaen oedd ar lethrau deheuol Mynydd yr Hôb, a gafodd ei gloddio am gerrig adeiladu neu a losgwyd i gynhyrchu calch i adeiladu ac ar gyfer amaethu.




*350 miliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd yr ardal hon o dan fôr cynnes, trofannol.*




*Llifodd y llen drwchus o iâ ar hyd Dyffryn Nant-y-Ffrith a throi i'r gogledd ar hyd Dyffryn yr Alun.*

# Y gorffennol diwydiannol

Cloddiwyd am y garreg leol a'r mwynau ar raddfa fechan yma am ganrifoedd. Efallai i'r Rhufeiniaid fod yn smeltio plwm yn y Ffrith, ac o'r garreg leol y codwyd llawer o'r hen adeiladau. Ond o ganol y 18fed ganrif fe ddechreuodd diwydiant ddatblygu ar raddfa fwy ar hyd yr Afonydd Alun a'r Cegidog, wedi'i sbarduno gan gynnydd technolegol y Chwyldro Diwydiannol.

Ar ddiwedd y 19eg ganrif buasai'r dynion lleol wedi gweithio yn y gweithfeydd haearn a'r gwaith glo yn y Ffrwd. Aeth eraill i fod yn fwynwyr yn y pyllau glo lleol oedd yn datblygu ar y pryd. Roedd Llay Hall yn gweithredu o 1887 i 1949 a Llay Main o 1917 i 1966. Roedd pyllau glo llai yn yr Hôb a Chefn-y-bedd. Agorodd nifer o weithfeydd brics hefyd i wneud brics tai, pibelli dwr, a theils gan ddefnyddio'r clai tân helaeth oedd i'w gael yn yr un lle â'r glo.

Roedd hithau'r Afon Alun yn cyflenwi ynni i'r diwydiannau. Adeiladwyd nifer o felinau ar hyd glannau'r afon i falu ŷd, gwneud papur, ac i lifio coed gan ddefnyddio'r ynni o olwyni dŵr anferth.



Melin Goed, Caergwrle

Wrth i'r diwydiannau hyn ddatblygu, fe dyfodd poblogaeth y ddau bentref yn raddol. Erbyn 1901, roedd y diwydiant glo yn cyflogi bron yr un nifer o weithwyr ag amaethyddiaeth. Roedd llawer o bobl eraill yn gweithio mewn diwydiannau eraill. Cododd nifer y masnachwr, gweision a siopwyr, cododd niferoedd y bobl broffesiynol hefyd gan adlewyrchu'r cynnydd yn y boblogaeth a'r twf mewn cyfoeth.

Ond ni pharhaodd y llwyddiant diwydiannol hwn; y rheswm oedd y cynnyrch rhad oedd yn cael ei fewnforio, a'r anghenion am ddeunydd crai gwahanol. Erbyn i Llay Main, y lofa olaf, gau yn 1966 aeth yr ardal unwaith eto yn ardal wledig a'r rhan fwyaf o bobl leol yr ardal yn teithio o'r pentrefi i weithio.



Pwll glo, Llay Hall









Gwaith haearn a glo'r Ffrwd





Caets glofa Llay Hall



Gwaith haearn a glo'r Ffrwd





# Trin y tir



*Gosodwyd maen melin yn waliau Eglwys yr Hôb*

Hanes ansefydlog a gafodd y diwydiannau lleol, a ffermio sy'n parhau i fod yn brif fodd o ddefnyddio'r tir. Hyd at y 1750au, ffermio oedd prif waith yr ardalwyr, ond wrth i'r ffermydd gael eu mecaneiddio, roedd modd eu gweithio gan gyflogi llai o bobl. Erbyn heddiw, nifer fach yn unig sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant amaeth.




*Melin Pen y Bont*

Ffermydd cymysg oedd y rhan fwyaf o'r ffermydd, gan dyfu ŷd a chnydau eraill, fel maip, ffa a thatws a chadw catel godro yn ogystal â defaid, mochyn neu ddau ac ychydig o ieir. Tan yr Ail Ryfel Byd, roedd y rhan fwyaf o ffermydd lleol yn defnyddio ceffylau i dynnu'r peiriannau. Oherwydd y rheilffordd, roedd modd anfon cynnyrch i'r dinasoedd mawrion. Anfonwyd llefrith Fferm Plas yr Hôb a Fferm yr Hafod bob dydd i lannau Mersi.



*Gyrru defaid i lawr Stryd Fawr Caergwrle*

Byddai pob fferm yn mynd â'r ŷd i'r melinau lleol i'w falu. Gwnaed y meini melin o dywodfaen caled lleol Cefn Fedw a gloddiwyd yn lleol. Yn 1662 roedd tair melin ŷd ar yr Afon Alun. Parhaodd Melin Pen-y-bont yng Nghaergwrle i falu ŷd ymhell i'r 20fed ganrif. Defnyddiwyd ei blawd i wneud un o'r blodiau codi cyntaf.



*Y cynhaeaf gwair*

## Cwrw da




Ar un adeg roedd Caergwrle Ales yn gwrw enwog. Mr Lassell o Leicester a sefydlodd y bragdy yn 1861, ar ôl deall bod dŵr y ffynnon leol yn ddelfrydol i fragu cwrw. Ffynnodd y bragdy, gan gyflenwi cwrw i nifer o'r tafarndai lleol - cwrw golau, mwyn a chwerw a stowt i bobl wael. Anfonwyd casgenni ar y rheilffordd i Shotton i'w dosbarthu, ac roedd siop drwyddedig yn y bragdy. Cafodd y gweithwyr ddogn o gwrw bob dydd.

Yn 1937, hwn oedd un o'r bragdai cyntaf i gynnig cwrw mewn tuniau. Yn 2001, fe werthwyd tun heb ei agor o Caergwrle Ale am £21 mewn ocsiwn.




Caeodd y bragdy ar ddiwedd y 1940au, yn fuan ar ôl iddo fynd i feddiant Burtonwood Breweries. Defnyddiwyd yr hen fragdy i wneud paent tan y 1970au. Nid oes unrhyw olion o'r hen fragdy erbyn hyn. Chwalwyd yr adeiladau a chodi tai ar y safle.



*'Each man must provide himself with a jar and will receive at six o'clock every day in the office three pints of ale. If any man is discovered drinking other ale, or giving it away he will be instantly dismissed.'*

*Rhan o reolau a rheoliadau Lassell and Sharman Brewery, 1898*



*Bragdy Caergwrle*

# Teithio heibio

Defnyddiodd yr helwyr-gasglwyr cynhanes, ffermwyr Oes yr Efydd a masnachwyr Oes yr Haearn yr hen lwybrau i groesi'r tir uchel.

Efallai y bu milwyr y Rhufeiniaid yn gorymdeithio drwy Gaergwrle am fod y ffordd Rufeinig o Gaer i dreflan farchnata a gwaith smeltio'r Ffrith yn croesi'r Afon Alun yn ymyl Caergwrle.

Am ganrifoedd, defnyddiwyd ceffylau pwn i gludo nwyddau ar ffyrdd oedd yn rhy doredig i droliau a wagenni. Byddai rhesi hir o geffylau pwn, hyd at dri deg o anifeiliaid, yn cario basgedi neu gewyll yn llawn o nwyddau fel ŷd, mwyn metel, glo a brethyn am bellteroedd lawer. Byddai'r ceffyl blaen yn gwisgo clychau ar ei harnais i rybuddio'r pentrefwyr eu bod ar eu ffordd. Roedd pentref Caergwrle ar ffordd y ceffylau pwn o Gaer i'r Bala ac adeiladwyd pont ceffylau pwn arbennig, gyda pharapetau isel oedd yn caniatáu i'r anifeiliaid a'r llwythi trwm fynd heibio'n rhwydd. Efallai bod y bont bresennol ar Fellows Lane yn dyddio o ddiwedd y 17eg ganrif.

Hon oedd un o bedair ffordd yn unig yn Sir y Fflint






*Hen dollty Abermorddu (yn ymyl y goleuadau traffig heddiw).Yn ddiweddarach, daeth Toll Bar Stores yn gaffi. Cafodd ei dynnu i lawr yn 1929.*

a fapiodd John Ogilby, y gwneuthurwr mapiau cynnar enwog, yn 1675. Mae'n amlwg felly fod y ffordd rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug wedi'i hen sefydlu erbyn y 17eg ganrif. Cynyddodd y pwysedd ar y ffyrdd wrth i ddiwydiant ddatblygu ac i'r traffig olwynion gynyddu. Sefydlwyd Ymddiriedolaethau Tyrpeg i wella ac i gynnal ffyrdd, a phasiwyd Deddf Tyrpeg ar gyfer ffordd Wrecsam i'r Wyddgrug. I dalu am gynnal a chadw'r ffordd casglwyd trethi ar y prif gyffyrdd. Yn lleol, roedd un tollborth ar y gyffordd yn Abermorddu ac un arall yn Rhanberfedd ger y gyffordd gyda Lôn Ffagl.

Agorodd y rheilffordd rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug a Rheilffordd Connah's Quay, oedd â gorsafoedd yng Nghaergwrle a'r Hôb, yn 1866. Cyn hir roedd y rhan fwyaf o'r nwyddau'n cael eu cludo arni gan ganiatáu iddyn nhw gael eu cludo'n gyflym i'r Ddyfrdwy ac i Connah's Quay i'w hanfon ymlaen. Ymunodd y lein gangen - oedd yn gwasanaethu glofa'r Hôb, y felin, y lofa gyfagos, a gwaith brics Llay Hall -, â'r brif lein yn Abermorddu. Adeiladodd Bragdy Caergwrle linell gangen fach hefyd.





*Gorsaf Caergwrle*



*Roedd The Welshman yn gweithio ar y lein mwynau. Daeth oddi ar y rheiliau yn 1948.*

# Caergwrle
# - atyniad i dwristiaid


Bu'r gwasanaeth trên yn gymorth i Gaergwrle ddatblygu yn gyrchfan i dwristiaid. Rhedai'r gwasanaeth teithwyr dair gwaith y dydd ac roedd yna gerbydau dosbarth 1, 2 a 3. Tyfodd poblogrwydd y gwasanaeth ar ôl 1870, yn dilyn creu Gwyliau Banc, hanner diwrnod o wyliau ar y dydd Sadwrn, a phobl yn cael amser i deithio yn y wlad. Rhedai trenau ychwanegol ar y Sadwrn i gwrdd â'r galw.

Ar ôl i'r bont siglo agor dros yr Afon Ddyfrdwy ym Mhenarlâg yn 1889 roedd y gwasanaeth trenau'n gallu ymestyn i Lerpwl a Seacombe. Daeth ymwelwyr o Fanceinion yn ogystal ag o'r trefi a'r pentrefi lleol. Denodd Caergwrle ymwelwyr o bell ac agos i weld adfeilion y castell, yr harddwch naturiol a'r sba.

*'At Bridge End Station visitors can leave the train, if so disposed, for a visit to the ruins of Caergwrle Castle which are seen on a mound to the left. Caer Estyn, an ancient British camp is on the right. Still better, it would repay the pedestrian tourist to explore Hope Mountain.'*
1894 'Gossiping Guide to Wales'

I gwrdd ag anghenion y cerddwr, fe gynhyrchodd y cwmni rheilffordd lyfryn 'Rambles Around Caergwrle', oedd yn rhoi manylion am y teithiau cerdded gan gynnwys taith hirach o gwmpas Mynydd yr Hôb.



Yr enw gwreiddiol ar orsaf Caergwrle oedd 'Bridge End'. Ailenwyd yn 'Caergwrle Castle and Wells' ac ymestyn y platfform i wneud lle i'r trenau hirach oedd yn rhedeg ar ddydd Mercher, Sadwrn a Sul. Ar benwythnos prysur byddai saith neu wyth o drenau'n cario cannoedd o deithwyr. Yn 1914, yr amcangyfrif yw bod 1500 o deithwyr wedi dod ar Ŵyl Banc Mai, a dwy i dair mil ar Fehefin 20fed. Daeth ymwelwyr eraill ar feic neu mewn siarabáng ac mewn ceir, beic modur a bws yn ddiweddarach.

*Gwesty'r Bont ac Ystafelloedd Te'r Temperance, ger Gorsaf Caergwrle*






Cymerodd y bobl leol bob cyfle i wneud arian o'r ymwelwyr, gan wneud te neu gynnig llety. Roedd nifer o dafarnau a gwestai i'r ymwelwyr yfed, ac roedd Ystafelloedd Te, gyferbyn â'r orsaf, yn cynnig diodydd dirwestol.

Ond o dro i dro, roedd y bobl leol yn cwyno am fod yr ymwelwyr yn swnllyd ac yn feddw, yn enwedig pan amharwyd ar heddwch y Sul. Roedd ambell achos o ymladd pan fu raid galw'r heddlu i gadw trefn.




Erbyn y 1930au, dechreuodd poblogrwydd yr ardal gilio, ond dengys y cardiau post niferus pa mor rhyfeddol o boblogaidd oedd yr ardal ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.








# Cymryd y dyfroedd



Heb unrhyw amheuaeth, yr atyniad mwyaf ar ddechrau'r 20fed ganrif oedd sba Caergwrle. Bu'r ffynhonnau ar dir Plas Rhyddyn yn enwog am eu gallu i iachau ers canrifoedd.

Yn 1740, ysgrifennodd Dr Short o Sheffield: *'The water is as clear as crystal, none can be finer. It has much been used as a purge and is sent for a great way into Wales. One Eliza Jones of Mold, having a great scurf all over her body that she was even loathsome, drank for some time of the water, about three pints a day, and is now cured.'*

Yn ystod y blynyddoedd fe newidiodd tenantiaid Plas Rhyddyn lawer o weithiau, ac nid oedd y ffynhonnau ar agor i ymwelwyr bob amser. Yn 1902 trefnodd y perchennog, Lieutenant Roe Brown, i gael dadansoddi dŵr y ffynnon.

*'From the saline spring an excellent aerated table water was obtained, equal, if not superior to the much vaunted German water. The water from the sulphur well was also found to be most valuable for certain disorders.'*

Erbyn hyn, roedd Caergwrle eisoes yn denu nifer dda o ymwelwyr, ac roedd Roe Brown yn deall bod potensial masnachol o'r ffynhonnau. Yn 1907, gwerthodd Plas Rhyddyn a'r ffynhonnau i syndicâd a'u datblygodd yn atyniad twristaidd llwyddiannus.





Byddai'r ymwelwyr yn dod i mewn drwy'r drws porthcwlis dramatig gan dalu'r tâl mynediad wrth y bythod talu cerrig oedd ar y naill ochr a'r llall. Yna byddent yn cerdded i lawr y dreif, heibio i Dŵr Sant Cuthbert, cartref rheolwr y sba, a heibio i adeilad potelu mawr a wnaed o frics coch a oedd yn cynhyrchu 14,000 o boteli o ddŵr swigod halwynog bob dydd.



Y Pafiliwn yng Nghaergwrle

Cafodd Plas Rhyddyn ei hunan ei droi'n westy i ymwelwyr mwy cyfoethog. Y man canolog ar gyfer teithwyr dydd oedd y pafiliwn mawreddog a'r ystafelloedd te yn y gerddi. Roedd ffenestri Ffrainc yn arwain i'r teras a ddefnyddiwyd ar gyfer bob mathau o adloniant. Yn aml iawn, byddai Band Bwcle yn chwarae yn y bandstand ac roedd yma beiriannau slot, llain fowlio ac atyniadau eraill. Gallai'r ymwelwyr brofi'r dyfroedd meddyginiaethol yn y tŷ pwmpio oedd uwchben y ffynnon sylffwr neu grwydro drwy'r gerddi ar lan yr afon.



Eglwys Blwyf, yr Hôb

# Capel ac eglwys

Ystyrir mai Eglwys y Plwyf yn yr Hôb , a gysegrwyd i seintiau'r bumed ganrif Cyngar a Chynfach, yw'r eglwys hynaf yn Sir y Fflint. Darganfuwyd olion croes Geltaidd wrth adnewyddu yn 2000, gan awgrymu i'r lle fod yn lle o addoliad ers y 9fed neu'r ddegfed ganrif. Dyddia'r rhan hynaf yr adeilad presennol o 1180, ond ychwanegwyd ato nifer o weithiau. Codwyd y Twr cadarn yn 1500. Mae gan yr eglwys gysylltiadau cryf â'r Teulu Trefor o Blas Teg. Ar ddechrau'r 17eg ganrif daeth ystlys ddeheuol yr eglwys yn Gapel Trefor.

Ond nid pawb oedd yn dewis addoli yn Eglwys yr Hôb. Erbyn dechrau'r 1800au roedd pregethwyr teithiol yn denu cynulleidfaoedd mawr. Efallai bod John Wesley ei hunan wedi bod yn pregethu yn yr ardal, credir iddo letya yn Fferm Rackery. Sefydlodd ei gefnogwyr gymdeithasau Methodistaidd yn 1790. Enillodd addoliad anghydffurfiol gefnogaeth yn gyflym yn yr ardal. Yn y dechrau, roedd grwpiau bach yn cyfarfod i weddïo yn nhai ei gilydd, ond wrth i'r niferoedd dyfu, roedd angen adeiladau mwy ac yna fe adeiladwyd capeli bychain. Tyfodd y gefnogaeth yn gyflym, ac ar un adeg roedd naw o gapeli yng Nghaergwrle. Capeli bach oedd y rhai cyntaf, ac adeiladau syml. Ond wrth i'r gefnogaeth gynyddu aeth y rhain yn rhy fach i'r cynulleidfaoedd ac roedd angen capeli mwy yn eu lle. Y bobl leol a gododd yr arian i'w hadeiladu.



Bedyddfaen Eglwys Blwyf yr Hôb



yr Eglwys Fethodistaidd, Stryd y Castell, Caergwrle

Y trydydd capel a adeiladwyd gan yr aelodau yw'r capel Presbyteraidd ar y Stryd Fawr. Codwyd yr un cyntaf tua 1770 mewn lle anhysbys, ac yma y dechreuodd yr Ysgol Sul gyntaf yn y plwyf. Yn 1809, codwyd capel arall yn ei le gyda lle i 100 o bobl. Aeth hwnnw hefyd yn rhy fychan, ac adeiladwyd yr adeilad presennol, gyda lle i 260, yn y flwyddyn 1894.



Eglwys Efengylaidd Newydd, Ffordd yr Wyddgrug, Caergwrle



Eglwys Fethodistiaid Wesleaidd, y Stryd Fawr, Caergwrle

Adeiladwyd capel yr Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd ar Ffordd Derby yn 1823, efallai mai cangen o'r un a ffurfiwyd yn Fferm Rackery oedd y capel hwn. Aeth hwnnw'n rhy fychan, a chodwyd capel mwy ar y Stryd Fawr yn 1900. Mae'r capel hwnnw wedi cau, a'r adeilad yn cael ei ddefnyddio'n Neuadd Fasonig erbyn hyn.



Adeiladwyd yr Eglwys Fethodistaidd yn Stryd y Castell yn 1859, a chafodd adeilad mwy ei godi yn ei le yn 1914. Roedd Caergwrle Boys' Brigade yn cyfarfod yn y capel ac yn dal i fynychu'r gwasanaethau ar drydydd dydd Sul y mis.



Adeiladwyd Capel Bethel, y Capel Annibynwyr Cymraeg yn 1842. Adeiladwyd capel arall ar Ffordd yr Wyddgrug yn 1908. Roedd ynddo le i 350 o aelodau. Bu cefnogwyr yr eglwys yn cynnal digwyddiadau i godi arian i dalu'r dyledion adeiladu. Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd y gynulleidfa Gymraeg yn lleihau a phenderfynwyd y dylid rhannu'r adeilad gyda'r Eglwys Efengylaidd newydd. Roedd problemau gyda'r hen adeilad, ac fe gafodd ei ddymchwel yn 2002. Adeiladwyd capel newydd yn 2003.





# Bywyd bob dydd



Hen Swyddfa'r Post, Caergwrle



Siop Esgidiau Conde, Caergwrle



Ystafelloedd Te'r Temperance

Cyn i gynifer o bobl ddod yn berchen ar gar, ychydig yn unig oedd yn teithio ymhell o'u cartrefi. Roedd gan bentrefi'r Hôb a Chaergwrle nifer gwahanol o siopau lle byddai pobl yn gallu prynu bron unrhyw beth. Yn 1936 roedd yng Nghaergwrle bedwar cigydd, siop bysgod, pedair siop sglodion, tair siop ddillad, saith groser a phobydd ,a nifer a siopau fferins a phapurau newydd.

Ar ddiwrnod marchnad roedd y trên yn llawn o bobl leol yn mynd i farchnad Wrecsam a 'r Wyddgrug. Dechreuodd y gwasanaeth bysiau cyntaf yn 1941, ac daeth mwy o gyfle i bobl deithio. Ond pan gafodd lawer o bobl geir fe ddirywiodd y siopau lleol. Mae nifer o siopau gwahanol yn dal yng Nghaergwrle ac mae siop a'r swyddfa post yr Hôb yn dal i lwyddo.

## Mwynhau peint

Roedd llawer o dafarndai yn y pentrefi ar gyfer y trigolion - o leiaf chwech yng Nghaergwrle a thri yn yr Hôb yn y 19eg ganrif. Nid oedd yr elw'n fawr ac yn aml iawn byddai gan y tafarnwr waith arall, a'r gwragedd oedd yn rhedeg y dafarn. Roedd yr ymwelwyr a ddaeth yn sgil y rheilffordd yn dda i fusnesau ac fe ehangodd nifer o'r tafarnau gan gynnig llety a phryd bwyd.

Mewn cymhariaeth â'r tafarndai, roedd y Mudiad Dirwest yn erbyn yfed, ac yn ennyn llawer o gefnogaeth ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed. Roedd y Temperance Tea Rooms, gyferbyn â'r Bridge End Inn, yn gwerthu lluniaeth i'r llwyrymwrthodwr ac, yn y 1930au, roedd llety a bwyd i'w gael yn The Queen's



Siop feiciau, eiddo i deulu Hughes



Ye Olde Castle Inn, Caergwrle




The Derby Arms

Temperance Hotel. Sefydlwyd cangen o Gymdeithas Ddirwest Eglwys Loegr yn yr Hôb yn 1879.

Er bod nifer o'r tafarnau wedi hen gau, mae digon o leoedd bwyta yn yr Hôb a Chaergwrle. Un o dafarnau hynaf Caergwrle yw 'Ye Olde Castle Inn', sydd â charreg ag arni'r dyddiad 1732. Gwelir yr adeilad, gyda tho gwellt, mewn llun o 1840. Mae'n dafarn leol boblogaidd hyd heddiw.



The old Red Lion

Mae'r Halfway Inn yn 160 oed o leiaf. Ceir cofnod o The Crown Inn yn 1863. Efallai mai tŷ cwrw syml oedd y dafarn hon ar y dechrau, ond tyfodd yn nes ymlaen i ddelio â'r nifer cynyddol o ymwelwyr.



The White Lion

Efallai mai The Bridge End Inn, ar fan croesi'r Afon Alun, yw'r dafarn hynaf yng Nghaergwrle. Roedd yn lle poblogaidd gydag ymwelwyr â'r sba, ac yn cynnig llety. Erbyn hyn, mae'n Fwyty Dwyreiniol yn ogystal ag yn dafarn. Efallai bod The Derby Arms yn dyddio o'r 17eg ganrif. Ymestynnodd i ddarparu llety a bwyd i ymwelwyr ac roedd ganddi ystafelloedd ymgynnull a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfarfodydd gwleidyddiaeth, cerdd a chwaraeon.

Yn wreiddiol, roedd The Red Lion, Yr Hôb, yn adeilad to gwellt, isel. Ymestynnwyd yn ddiweddarach a'i ail-adeiladu mewn brics gyda tho teils. Efallai bod The White Lion, Yr Hôb, yn hŷn o lawer nag yr awgryma'r garreg sydd â'r dyddiad 1828.

*"A special effort should be made to counteract our great national sin of drunkenness... this society admits not only total abstainers but all who are prepared to pledge themselves in the practice of moderation in the use of strong drinks.'*

*Cylchgrawn Plwyf yr Hôb, Gorffennaf 1879*



# Gwyliau a dathliadau

Drwy gydol y 19eg a'r 20fed ganrif fe gynhaliwyd nifer o garnifalau, ffeiriau, gorymdeithiau, sioeau amaethyddol ac ail-greu'r gorffennol yn y ddau bentref.

Roedd llawer o'r bobl leol yn ymfalchïo yn eu gerddi ac yn tyfu llysiau a blodau. Roedd hawl gan bobl nad oedd rhent eu tai yn fwy na deg punt, a heb dŷ gwydr ganddyn nhw i ddangos eu cynnyrch yn Sioe Garddio Flynyddol yr Hôb. Roedd llawer o fathau o flodau a chynnyrch gardd yn cael eu dangos ac roedd y gwobrau'n cael eu parchu'n fawr.



*Gorymdeithio drwy Gaergwrle, i ddathlu coroni'r Brenin George V o bosib*

Roedd cerddoriaeth yn rhan bwysig o'r dathliadau lleol bob amser. Cynhaliwyd eisteddfodau'n rheolaidd, a byddai bandiau pres lleol yn arwain gorymdeithiau neu'n cyfeilio i'r dawnsio.

Roedd digwyddiadau gwladol fel Priodasau Brenhinol a choroni yn cael eu dathlu'n frwd.



*Carnifal Caergwrle 1935*

*'.... an excellent repast at the Castle Dining Rooms. The Ffrwd Band then played for dancing and sports held in the castle grounds. Lassell and Sharman gave all the older residents a pint of beer in a coronation mug, which they kept."*

*Cofnod o ddathliadau coroni'r Brenin George V a'r Frenhines Mary.*





Un o'r digwyddiadau cyntaf a gofnodwyd oedd Gŵyl yr Hôb a Chaergwrle a ddechreuodd yn 1837. Roedd y carnifal yn dal yn boblogaidd drwy'r 20fed ganrif.



Mae achlysuron cymunedol yn dal i dderbyn cefnogaeth heddiw. Mae Eglwys Blwyf yr Hôb yn cynnal Dyddiau Gweithgareddau, sy'n cynnwys taith o dŵr yr eglwys, a cheir nifer o ddigwyddiadau blynyddol, gan gynnwys ffair Oes Fictoria. Mae Ysgolion Cynradd Abermorddu ac Ysgol Estyn yn cynnal Ffair Haf, ac Ysgol Castell Alun yn cynnal perfformiadau cyhoeddus, yn enwedig i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi a'r Nadolig.



Dechreuodd Gŵyl Hanes Caergwrle yn 1987 pan lwyfannwyd pasiant o hanes Caergwrle. Daeth nifer fawr o gefnogwyr iddo. Mae nifer o gymdeithasu Canoloesol Gogledd Cymru a chymdeithasau Hanes Byw yn deillio o ddigwyddiadau yng Nghaergwrle. Mae'r actorion sy'n ail-greu'r gorffennol yn dal i roi lliw i ddathliad blynyddol 'Rhyddhad Yr Hôb' gan gefnogwyr Owain Glyndŵr, gydag aelodau o Fand Drymiau Cambria yn cymryd rhan.



## Derby Cinema House

Yn 1920, comisiynodd perchnogion tafarn y Derby Arms sinema. Roedd ynddo seddi i 380, gan gynnwys y balconi. Mae'r bobl leol yn cofio gweld rhes hir o bobl yn disgwyl gweld y ffilm ddiweddaraf yn Stryd y Castell. Caeodd y sinema yn 1962, ond mae'r adeilad du-a-gwyn gwreiddiol yn dal i sefyll.



*Derby Cinema House, Caergwrle*



# Lle i fywyd gwyllt

Lle gwych i fywyd gwyllt yw'r cefn gwlad o gwmpas yr Hôb a Chaergwrle. Mae yma gymysgedd o lannau afon, dolydd, llynnoedd, coetir aeddfed a llwyni.

Mae'r grug a'r llus yn ffynnu ar y pridd asid yng Nghastell Caergwrle a Chaer Estyn, a cheir pocedi o goed *bedw* a *chastanwydden felys*. Yn yr hydref, mae llawer o ffwng yn tyfu yma, gan gynnwys *amanita'r pryfed* - y caws llyffant gyda'r smotiau coch sy'n enwog mewn chwedlau.

Gwelir y *neidr ddefaid* o gwmpas y castell ac yn y gerddi sydd ar ymylon Caer Estyn. Yn aml iawn cânt eu camgymryd am nadroedd, ond madfallod heb goesau ydyn nhw mewn gwirionedd. Maen nhw'n bwydo ar falwod ac i'w gweld mewn tomennydd compost.



*Neidr ddefaid*

Yn y goedlan dderw ar ochr orllewinol yr afon yn ymyl Bryn Yorkin mae carped o *glychau'r gog* yn y gwanwyn ac arogl cryf y *craf* yn llenwi'r awyr wrth yr afon.

Mae'r coedlannau'n gartref i nifer o adar ac anifeiliaid, gan gynnwys *y gnocell fraith fwyaf, telor y cnau a'r dringwr bach* sy'n bwyta'r pryfed sy'n byw o dan risgl y pren.

Mae'r gwrychoedd a'r llwyni'n ychwanegu at werth bywyd gwyllt yr ardal, gan gyflenwi bwyd a rhoi cysgod i'r adar ac i'r mamaliaid. Caiff rhai o'r gerddi lleol eu rheoli ar gyfer y bywyd gwyllt hefyd, ac mae bwydwyr adar yn denu nifer o adar diddorol fel heidiau o'r *titw gynffon hir, y nico a choch y berllan*.

Mae'r *Jac y do* yn aderyn cyfarwydd o gwmpas yr Hôb, gan fwydo yn y dolydd a chlwydo ar simneiau, neu ar dŵr yr eglwys yn y nos.

Gwelir heidiau o *gornchwiglod* yn hedfan dros y caeau yn Shordley. Ar un adeg, roedden nhw'n adar cyffredin ar dir ffermio ond maen nhw'n brinnach erbyn hyn am fod y dulliau ffermio wedi newid.




*Coch y berllan*




*Titw gynffon hir*



*Cornchwiglen*



*Y peunog*



*Tylluan wen*



*Cnocell fraith fwyaf*



*Amanita'r pryfed*



*Craf*

# Glan yr Afon



Glas y dorlan

Ar lannau'r Afon Alun ceir coed *gwern* â'u blodau ymyl-coch a'u conau bach sy'n fwyd i adar fel *pila gwyrdd*.

Afon sy'n boblogaidd gyda physgotwyr yw'r Alun am fod ynddi *frithyll brown* sy'n ffynnu yn y dŵr croyw. Mae'r eog a'r *penllwyd* hwythau'n cynyddu yma. Defnyddia'r *dyfrgi'r* afon yn aml, ond annhebyg y gwelwch y creadur swil hwn.



Trochwr

Efallai gwelwch fflach lachar *glas y dorlan* neu gael cipolwg ar y *trochwr*, yr adar bach bywiog gyda'r gwyn o dan ei ên, yn hercian i fyny ac i lawr ar gerrig yr afon neu'n gwibio'n gyflym ar ei hyd-ddi.

Mae mursennod lliwgar, main yn hofran uwchben y tyfiant ar lan y dŵr a'r gwas y neidr (gan gynnwys y *picellwr pedwar-nod*),i'w weld yn aml yn ymyl yr afon neu'n bwydo yn y gwrychoedd cyfagos.

Ffynna'r blodau gwyllt yn y dolydd ar lannau'r afon, gan ddenu gloÿnnod byw a thrychfilod eraill fel *gwenyn* sy'n bwydo ar y neithdar.



Tegeirian mannog

Tegeirian bera



Copor bach



Cwtiad torchog bach



Dyfrgi

Daw nifer o adar i dyllau Chwarel Lôn Ffagl sy'n llawn o ddŵr. Yn y gaeaf, daw'r hwyaid a'r adar gwyllt o'r Arctig, ac mae hyd at 500 o *wyddau gwyllt* yn treulio'r gaeaf yma gydag ychydig o barau yn aros i fagu yn yr haf. Efallai y clywch nhw'n cadw sŵn uwchben neu'n eu gweld yn hedfan yn araf mewn trefn. Yn aml iawn, gwelir yr *hwyaden ddanheddog*, aderyn du a gwyn nodweddiadol gyda phig main crwm, yn nofio ar y dŵr neu'n plymio am bysgod. Yn yr haf bydd y cwtiad torchog bach yn nythu yn y chwarel. Mae nifer fach o *wennol y glennydd* yn nythu yn y banc tywod ac fe'u gwelir yn disgyn yn sydyn uwchben y dŵr gan ddal pryfed wrth iddyn nhw hedfan.



Picellwr bedwar nod

Mae'r *Dylluan wen* yn prinhau yng Nghymru, ond cawsant eu gweld yn y chwarel hon. Bydd yr ystlumod yn hela am bryfed uwchben y dŵr ac yn clwydo yn eglwys yr Hôb neu yn yr hen goed. Yn gynnar yn yr haf, mae'r ddaear yn frith o flodau pinc y *tegeirian bera a'r tegeirian mannog*.


Y gobaith yw y bydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn rheoli'r chwarel segur yn warchodfa natur. Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu pont cerddwyr newydd a llwybr o gwmpas y llyn.



Gwyddau gwyllt

Hwyaden ddanheddog

# Hope & Caergwrle
# Yr Hôb a Chaergwrle




- Pub/ Tafarn
- Parking area/ Maes parcio
- Building of interest/ Adeilad o ddiddordeb
- Church or chapel/ Capel neu Eglwys
- Right of way/ Hawl tramwyo
- *Rural Walks in Flintshire* No 5/ *Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Flint* Rhif 5
- *Rural Walks in Flintshire* No 14/ *Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Flint* Rhif 14
- Flintshire Leisure Drive, Nercwys - Caergwrle / Taith foduro Sir Y Fflint, Nercwys - Caergwrle
- Castle walk/ Taith gerdded y Castell

1. Halfway Inn - 01978 760 521
2. Crown Inn - 01978 760 302
3. Ye Olde Castle Inn - 01978 769236
4. Derby Arms
5. Bridge Inn - 01978760977
6. Red Lion - 01978 760 417
7. White Lion - 01978 760572
8. Holly Bush - 01978 761716